# Enw'r Ysgol: Ysgol Gynradd Beddgelert

## Addysg Grefyddol

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Mae safonau Addysg Grefyddol y disgyblion yn dda ar draws yr ysgol. Dengys adroddiadau craffu ar lyfrau'r disgyblion fod cynnydd da yng ngwaith y disgyblion.
Mae bron bob un o'r disgyblion yn deall ac yn gallu disgrifio a thrafod prif nodweddion defodau, gwyliau a dathliadau crefyddol.
Gall yr rhan fwyf o ddisgyblion i alw i gof rhai o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yr ymchwilir iddynt.
Mae bron pob un disgybl yn gallu egluro'n glir beth yw tegwch, cyfeillgarwch, caredigrwydd, gofal a chariad tuag at eraill.
Mae'r disgyblion drwy'r cyngor ysgol wedi trefnu gweithgareddau ar gyfer codi arian I Nepal a'r Philipinnes agwneud cyflwyniad I'r gwasanaeth Diolchgarwch ar y thema Masnach Deg. Mae hyn yn arfer rhagorol.
*'Mae'r disgyblion yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer achosion da fel llifogydd yn Ynysoedd y Philippinos a masnach deg, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion eraill' Adroddiad ESTYN 2015*
Mae bob un disgybl o'r ysgol yn ymweld a'r eglwys lleol i gynnal gwasanaeth Diolchgarwch a'r Nadolig yn flynyddol ac yn ymweld a'r henoed yn achlysurol I ganu neu arddnagos gwaith celf ar gyfer yr Eisteddfod.
Gall bron pob un disgybl nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau.
Gall y rhan fwyaf o'r disgyblion ddeall iaith symbolaidd ac i ddefnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas.
Mae bron pob un disgybl yn barod I drafod ac I ofyn cwestiynnau am fywyd , a'r byd o'u cwmpas yn hyderus iawn

**Safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a medd**

Adroddiadau craffu ar lyfrau yn nodi fod medrau llythrennedd, rhifedd, TGCH a meddwl da i weld yng ngwaith y disgyblion ar draws yr ysgol ac yn arddangos cynnydd.
*'Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd a llythrennedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm' Estyn 2015*

**Materion i gael sylw**

Sicrhau bod y tasgau addysg grefyddol yn herio'r disgyblion mwy galluog
Datblygu gallu'r disgyblion y Cyfnod Sylfaen i holi cwestiynau a mynegi barn

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

Yn y Cyfnod Sylfaen rhoddir gwers Addysg Grefyddol drwy weithgareddau Personol a Lles a chyfle I'r disgyblion drafod materion megis - cyfeillgarwch, tegwch, caredigrwydd drwy gyfnodaurheolaidd o Amser Cylch.
Yng Nghyfnod Allweddol 2 rhoddir gwers Addysg Grefyddol yn wythnosol. gan athrawes CPA sydd a gwybodaeth bynciol da . Mae'r cynlluniau dysgu yn sicrhau dilyniant a datblygiad yn sgiliau addysg grefyddol y disgyblion.

Cynllunir ymweliadau diddorol i addoldai lleol,ac I goleg y Bala . Defnyddir arteffactau crefyddol i ysgogi diddordeb y disgyblion mewn addysg grefyddol. Ceir amrediad da o adnoddau addas
Mae parodrwydd y staff i ymchwilio i ddulliau addysgu addas ar gyfer addysg grefyddol yn dda ee.e drwy fynychu cyrsiau hyfforddiant, derbyn hyfforddiant ac arweniad y Pennaeth ar asesu ar gyfer dysgu .
Defnyddi'r yr athrawon strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn rheolaidd yn eu dysgu. Gwelir wrth graffu fod y dosgyblion yn pennu MPLL ac yn cael cyfnodau o fyfyrio ar gwaith eu gilydd.

**Darpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl**
Cynllunir gweithgareddau yn fanwl a diddorol gan nodi sgiliau FfLlRh a'r Maes Llafur Cytun Lleol. Defnyddir amrywiaeth o adnoddau megis Pobl, Credoau a Chwestiynau ar gyfer annog y disgyblion i feddwl a mynegi barn.

**Materion i gael sylw**

Parhau i adnabod meini prawf llwyddiant addas ac i fyfyrio ar y dysgu
Parhau i gynnig ystod eang o brofiadau diddorol a gwerthfawr ar draws yr ysgol

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? | Ydy√ | Nac ydy |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**
Cynhelir Addoli ar y Cyd yn ddyddiol yn yr ysgol –dwy waith ysgol gyfan a tair gwaith yn y dosbarthiadau.
Rhoddi'r cyfle i'r disgyblion gymryd rhan drwy ganu, ymateb, darllen, cynnal gwasanaethau.
Mae athrawon yr ysgol yn cymryd eu tro i gynnal gwasanaethau ysgol gyfan yn wythnosol.
Ers dwy flynedd bellach mae disgyblion CA2yn cyd-gynllunio gwasanaethau e.e. Gwasanaeth Diolchgarwch gyda'r athrawes.
Mae bron pob disgybl yn cymryd rhan yn y gwasanaethau ar ffurf thema fel Masnach deg, gofalu am anifeiliaiad a dwylo.
Mae ei sgiliau llefaru, a darllen yn dda a'i sgiliau gwrando ar eraill yn dda iawn - maent bob amser yn dangos parch tuag at eraill wrth wrando acyn ymateb yn hyderus I'r oedolion.
Caiff y disgyblion gyfleoedd bob bythefnos i wrando a chymryd rhan mewn gwasanaeth gan Agor y LLyfr– criw o oedolion sydd wedi dod at ei gilydd o'r Capeli a'r Eglwysi ardal. Yn ystod y cyfnodau yma dangosai'r disgyblion ddealltwriaeth cadarn o storiau o'r Beibl. Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i weddïo'n uchel gyda'i gilydd neu weddïo'n unigol yn dawel ac byddant bob amser yn hyderus o wneud.

Caiff y disgyblion gyfleoedd I wrando a chymryd rhan mewn gwasanaeth gan arbenigwyr megis y Ficer neu Nia o'r Coleg y Bala drwy ganu, ymateb I gerdd, lun neu gwestiwn.
Yn rheolaidd mae'r disgyblion yn cael l eu hannog i ganu emyn neu gân addoli arall gyda'i gilydd. Mae hyn yn arfer rhagorol.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i ddatblygu ac arwain gwasanaethau addoli ar y cyd.
Parhau ar arferion da sydd yn digwydd yn barod yn yr ysgol.

| Rhagorol | √ | Da | | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Catrin Gwilym (Pennaeth)

Dyddiad: 21/10/15